

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

MyDentist, Stryd y Cei, Hwlfordd,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 30 Awst 2023

Dyddiad cyhoeddi: 30 Tachwedd 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	8
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	18
4.	Y camau nesaf .....	21
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	22
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	23
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	24

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o MyDentist, Stryd y Cei, Hwlfordd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 30 Awst 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 12 holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 3 gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch a'u bod yn cael gofal mewn ffordd a oedd yn diwallu eu hanghenion unigol. Clywsom gan gleifion fod y staff yn ystyriol ac yn gwrando arnynt o ran eu gofal. Gwelsom fod oedi o ran apwyntiadau'r GIG gan nad oedd deintydd y GIG ar gael. Gwelsom fod y cleifion yn cael eu hannog i ddefnyddio eu dewis iaith.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod gofal a ddarperir gan y GIG ar gael a'i fod yn amserol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Nodwyd gennym fod y staff yn gwrando ar eu cleifion ac yn esbonio'r gofal mewn ffordd y gallant ei ddeall
- Gwelsom ddull dim goddefgarwch at aflonyddu a gwahaniaethu.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod gofal yn cael ei ddarparu'n ddiogel mewn practis glân, modern a thaclus. Gwelsom y gellid gwneud gwelliannau o ran y wybodaeth a gaiff ei chynnwys yng nghofnodion y cleifion ac i'r dull o hysbysebu gwasanaethau iechyd galwedigaethol i gyflogeion. Gwelsom fod y risgiau yn cael eu rheoli'n briodol, ond nodwyd gennym y gallai'r practis wella agweddau ar gynnal gwiriadau ar gyfarpar diogelwch tân.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod cofnodion y cleifion yn gynhwysfawr, yn ddealladwy ac yn gywir
- Gellid gwneud gwelliannau i'r broses o wirio cyfarpar diogelwch tân
- Dylai tîm rheoli'r practis wella ei broses o gyfathrebu â'r staff mewn perthynas â gwasanaethau iechyd galwedigaethol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom dystiolaeth bod gofal yn cael ei ddarparu i gleifion mewn modd diogel
- Gwelsom drefniadau rheoli risgiau iechyd a diogelwch cynhwysfawr ar waith.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod trefniadau rheoli a llywodraethu addas ar waith er mwyn helpu i reoli'r practis yn effeithiol. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant hyd at y gofynion gorfodol ac roedd y trefniadau recriwtio yn cael eu rheoli'n briodol. Nodwyd gennym fod y staff wedi mynegi pryderon mewn perthynas â llesiant a'r broses o fynegi pryderon yn eu hadborth. Gwelsom lefel dda o gydymffurfiaeth ag archwiliadau gofynnol mewn perthynas â rhoi'r gorau i smygu, rhagnodi gwrthfotigau, cofnodion y cleifion a phelydrau-X.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai tîm rheoli'r practis ystyried anfon arolwg i'r staff mewn perthynas â'u llesiant
- Dylid rhoi trefniadau ar waith i gynyddu'r anogaeth ymysg y staff i fynegi pryderon

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr archwiliadau clinigol yn cael eu cwblhau'n rheolaidd ac roeddent yn gynhwysfawr
- Roedd cyfarfodydd staff ac arfarniadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd ac roeddent yn fanwl.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Dywedodd pob un o'r 12 o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth roeddent wedi'i gael yn 'dda iawn' neu'n 'dda'. Roedd rhai o'r sylwadau a nodwyd gan gleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

*“Mae MyDentist yn ystyriol iawn o fy anghenion. Mae staff y dderbynfa'n barod iawn i helpu.”*

*“Mae staff y dderbynfa yn gyfeillgar iawn. Mae'r deintydd yn wybodus ac yn siarad â mi er mwyn i mi ddeall.”*

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

*“Décor - mae angen paentio y tu allan i'r adeilad. Problemau parcio.”*

#### Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

##### Hybu Iechyd

Gwelsom fod amrywiaeth o wybodaeth i gleifion i'w gweld o amgylch y practis, gydag opsiynau dwyieithog ar gael i'r cleifion.

Roedd hysbysiadau yn rhoi cyngor ar roi'r gorau i smygu a thafleuni ymwybyddiaeth cancer y geg yn cael eu harddangos a gwelsom fod taflenni gwybodaeth i gleifion dwyieithog ar gael i gleifion fynd â chopiau adref gyda nhw. Roedd costau ar gyfer gwasanaethau preifat a gwasanaethau'r GIG i'w gweld yn y dderbynfa. Gwelsom fod oriau agor y practis, manylion y gwasanaeth brys y tu allan i oriau, yn ogystal ag enwau'r clinigwyr deintyddol a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'w gweld y tu allan i'r practis.

Dywedodd pob ymatebydd i holiadur cleifion AGIC fod y staff wedi esbonio eu hiechyd y geg iddynt mewn modd y gallent ei ddeall a'u bod wedi cael cyngor ôl-ofal addas.

##### Gofal Urddasol a Pharchus



Gwelsom y staff yn trin cleifion mewn modd proffesiynol, gydag urddas a pharch. Nodwyd gennym fod y practis a'i ddeintyddfeydd wedi'u dylunio er mwyn cynnal ymgynghoriadau preifat. Roedd ffenestri barugog yn y practis ac roedd y drysau yn cael eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau.

Dyweddodd y staff wrthym y byddent yn trafod unrhyw faterion sensitif â chleifion mewn swyddfa fach a gwelsom fod sgriniau wedi'u gosod yn ardal y dderbynfa er mwyn cynnal sgysiau preifat dros y ffôn na ellid eu clywed gan bobl eraill yn hawdd.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch. Nododd pob un o'r ymatebwyr hefyd eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt a'u bod wedi ateb eu cwestiynau mewn ffordd y gallent ei deall.

### **Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Nododd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi cael yr holl wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt i wneud penderfyniad am eu gofal deintyddol a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal.

Nododd yr ymatebwyr hefyd fod y staff wedi gwirio eu hanes meddygol cyn cael unrhyw driniaeth a bod yr opsiynau triniaeth, gan gynnwys y risgiau, y buddiannau a'r costau'n cael eu hesbonio mewn ffordd y gallent ei deall.

## **Amserol**

### **Gofal Amserol**

Gwelsom fod proses apwyntiadau ar waith sydd â'r nod o leihau achosion o oedi a chanslo er mwyn gwella mynediad amserol i ofal.

Dyweddodd y cleifion wrthym y byddai'r staff yn rhoi gwybod am unrhyw achosion o oedi neu ganslo wyneb yn wyneb wrth iddynt gyrraedd y practis neu dros y ffôn pe byddai'r cleifion heb gyrraedd. Gwelsom fod apwyntiadau yn cael eu trefnu dros y ffôn yn bennaf ond y gellid eu trefnu dros neges e-bost hefyd.

Dyweddwyd wrthym y byddai cleifion ag unrhyw ofynion brys yn cael eu brysbennu dros y ffôn gan staff y dderbynfa, mewn ymgynghoriad â deintydd. Clywsom fod cleifion y GIG yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth 111 dros y ffôn gan staff y dderbynfa gan nad oedd deintydd y GIG ar gael yn y practis ar hyn o bryd a dywedwyd wrthym nad oedd yn bosibl i unrhyw gleifion y GIG gael eu gweld drwy apwyntiad brys. Dywedodd un claf wrthym:

*“mae amseroedd aros hwy nawr ers mis Ebrill '22.”*

Dyweddod y staff wrthym y byddai unrhyw gleifion newydd a chleifion preifat presennol yn cael eu gweld o fewn 24 awr.

Dyweddwyd wrthym fod y clinigwyr yn gweithio i ddiwallu anghenion y cleifion drwy eu gweld yn ystod amseroedd o'u dewis cymaint ag sy'n bosibl o fewn eu horiau gweithredu. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion (8/12) a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi ei chael hi'n eithaf hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt, a dywedodd un o'r cleifion nad oedd wedi'i chael hi'n hawdd o gwbl. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion (10/12) eu bod yn gwybod sut i gael gafaal ar wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

## Teg

### Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom bractis a oedd yn annog y cleifion i ddefnyddio eu dewis iaith ac a oedd yn cefnogi'r rhai nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Clywsom y staff yn gofyn i'r cleifion nodi eu dewis iaith wrth gyrraedd y practis ac roedd poster i'w weld a oedd yn annog y cleifion i nodi'r dewis iaith hwnnw.

Dyweddod y staff wrthym fod cyrsiau dysgu Cymraeg ar gael iddynt drwy'r bwrdd iechyd ac er nad oedd unrhyw aelod o'r staff a oedd yn gweithio yn y practis yn siarad Cymraeg, byddai'r practis yn gwneud ymdrech i alluogi'r cleifion i gyfathrebu yn eu dewis iaith drwy ddefnyddio llinell iaith a gwasanaethau ar-lein eraill.

Gwelsom fod gwybodaeth ddwyieithog ar gael i gleifion a'i bod yn cael ei harddangos o amgylch ardal y dderbynfa. Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC (10/12) mai Saesneg oedd eu dewis iaith, a nododd dau ymatebydd mai Cymraeg oedd eu dewis iaith. Nododd y ddau ymatebwr yma, nad oeddent wedi cael y cyfle i siarad Cymraeg drwy gydol eu taith fel claf, a nododd un ohonynt ei fod yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio ei ddewis iaith.

Esboniodd y staff eu bod yn deall y 'Cynnig Rhagweithiol' yn foddhaol ac y byddent yn diwallu anghenion iaith y cleifion er mai canran fach ohonynt a oedd yn siarad Cymraeg. Gwelsom fod prosesau ar waith yn y practis i gefnogi anghenion iaith pob un o'i gleifion.

### Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod gan y practis bolisi derbyn cleifion cynhwysfawr yn ogystal â pholisi cydraddoldeb ac amrywiaeth boddhaol er mwyn hyrwyddo triniaeth gyfartal a hawliau ei gleifion. Gwelsom fod adran addas wedi'i chynnwys yn y polisi recriwtio a oedd yn amlinellu dull y practis o gynnig cyfleoedd cyfartal o ran cyflogaeth a dolen sain er mwyn helpu'r rhai ag anawsterau clywed.

Gwelsom boster yn y dderbynfa a oedd yn dangos dull dim goddefgarwch at aflonyddu a cham-drin a nodwyd gennym fod gan y practis bolisi cadarn ar waith i ddelio ag unrhyw gleifion a oedd yn trin y staff neu gleifion eraill yn amhriodol.

Dywedodd yr holl gleifion a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym nad oeddent wedi wynebu unrhyw fath o wahaniaethu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion (10/12) o'r farn bod y practis yn gwbl hygyrch neu'n rhannol hygyrch, a nododd dau o'r ymatebwyr nad oeddent yn siŵr.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli Risg

Gwelsom fod y practis yn lân, yn fodern a'i fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd yn cynnwys cyfarpar clinigol addas er mwyn gofalu am y cleifion yn ddiogel. Roedd y practis wedi'i leoli dros ddau lawr gyda deintyddfeydd a oedd yn cynnwys digon o gyfarpar, ystafell aros briodol o ran maint ac ystafell ddihalogi ddynodedig. Roedd deintyddfa ar y llawr gwaelod, coridorau llydan a mynediad gwastad at y drws ffrynt yn sicrhau y gallai pobl anabl gael mynediad at y practis yn briodol.

Nododd un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur staff AGIC, o'r 16 o aelodau o staff yn y practis, nad oedd yn teimlo bod y cyfleusterau yn briodol er mwyn iddo gwblhau ei dasgau penodol. Nododd pob un o'r ymatebwyr fod yr amgylchedd yn briodol er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt.

Nodwyd gennym fod digon o olau yn y practis a bod y system gwresogi ar lefel briodol. Ar y cyfan, nid oedd unrhyw beryglon amlwg yn yr amgylchedd ac roedd hyn yn sicrhau y gellid gofalu am y cleifion yn ddiogel. Gwelsom fod digon o arwyddion wedi'u gosod, gan gynnwys rhai ar gyfer diogelwch tân ac allanfeydd brys. Gwelsom fod y cyfleusterau newid ar gyfer y staff a thoiledau'r cleifion a'r staff yn lân, yn fodern ac yn cynnwys y cyfarpar priodol.

Nodwyd gennym fod gan y practis ddull manwl ac addas ar waith i reoli risgiau drwy ddefnyddio asesiad risg iechyd a diogelwch, a oedd wedi'i adolygu a'i ddiweddarau diwethaf ym mis Awst 2023. Roedd yr asesiad risg yn ategu'r polisi iechyd a diogelwch a oedd ar waith a oedd wedi'i adolygu ddiwethaf ym mis Ebrill 2023 a'i lofnodi gan bob aelod o'r staff wedi iddynt ei ddarllen a'i ddeall. Roedd y practis yn cynnal cynllun parhad busnes derbyniol a oedd yn cyfeirio at gymorth corfforaethol priodol a oedd ar gael drwy MyDentist.

Gwelsom fod y broses o gyfathrebu dros y ffôn yn gweithio'n dda ac roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwyr y practis i'w gweld ar y wal yn y dderbynfa. Roedd poster yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac arwyddion dim smygu i'w gweld ym mhob rhan o'r practis hefyd.

Gwelsom asesiad risg tân a oedd wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n flynyddol a dengys tystiolaeth bod gwiriadau llwybrau dianc yn cael eu cynnal yn ddyddiol, bod gwiriadau larymau tân yn cael eu cynnal yn wythnosol, bod gwiriadau'n cael eu cynnal ar y goleuadau argyfwng yn fisol a bod ymarferion tân yn cael eu cynnal bob chwe mis. Roedd y gwiriadau cynnal a chadw ar y cyfarpar tân yn cael eu cynnal

gan contractiwr allanol bob blwyddyn ac yn wythnosol gan y practis. Gwelsom fod y practis yn parhau i ddefnyddio'r ddau ddiffoddwr carbon deuocsid (CO<sub>2</sub>), er bod eu dyddiad gwasanaethu wedi mynd heibio. Nodwyd gennym nad oedd y gwiriadau staff wythnosol ar y cyfarpar yn cynnwys gwiriadau ar y dyddiadau dod i ben. Oherwydd y risg i ddiogelwch cleifion yn sgil y diffoddwyr y mae eu dyddiad defnyddio wedi dod i ben, uwchgyfeiriwyd y mater hwn at y staff ac fe'i datryswyd ar ddiwrnod yr arolygiad. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad A.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y cyfarpar tân cludadwy ei wirio'n rheolaidd ac yn gynhwysfawr er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn barod i'w ddefnyddio pe bai argyfwng.**

### **Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi**

Gwelsom fod pob rhan o'r adeilad yn cael ei chynnal i safon dda o ran cyflwr a oedd yn galluogi i'r practis gael ei lanhau'n effeithiol. Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol yn cael ei ddefnyddio'n briodol, a gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau'n cael eu cynnal yn ddyddiol ar yr ardaloedd clinigol. Roedd gan y practis bolisiau a gweithdrefnau manwl ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau a dihalogi, ac roedd aelod profiadol o'r staff yn gweithredu fel yr arweinydd a enwyd.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod o'r farn bod y practis yn 'lân iawn' neu'n 'eithaf glân', ac roedd pob un ohonynt yn teimlo bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

Nodwyd gennym fod polisiau clir a phriodol ar waith ar gyfer materion iechyd galwedigaethol a gwelsom fod dyfeisiau offer miniog mwy diogel yn cael eu defnyddio i atal anafiadau. Ar ddiwrnod ein harolygiad, dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau iechyd galwedigaethol pan oedd eu hangen arnynt. Mewn ymateb i holiadur staff AGIC, nododd dau aelod o'r staff nad oeddent yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol sydd ar gael iddynt.

**Dylai'r rheolwr cofrestredig hyrwyddo gwasanaethau iechyd galwedigaethol yn rheolaidd i'w staff.**

Gwelsom dystiolaeth bod profion awtoclaf a diheintydd peiriant golchi yn cael eu cynnal mewn ystafell ddihalogi ddynodedig addas yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Roedd y profion hyn yn ategu'r gwiriadau cynnal a chadw dyddiol a oedd yn cael eu cynnal ar y rhaglen. Gwnaethom arsylwi'r staff yn rhoi cylchred ddihalogi lawn ar waith i safon foddhaol a gwelsom y staff yn cludo cyfarpar yn ddiogel o'r ddeintyddfa i'r ystafell ddihalogi. Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd yn cael eu cynnal. Cynhaliwyd yr archwiliad diwethaf ym mis Gorffennaf 2023.

Nodwyd gennym fod y gwastraff yn y practis yn cael ei waredu gan gwmni rheoli gwastraff priodol a bod yr eitemau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn cael eu rheoli'n foddhaol. Gwelsom fod y ffolder COSHH yn gyfredol ac yn gynhwysfawr.

### **Rheoli Meddyginiaethau**

Gwelsom fod y broses o reoli meddyginiaethau yn y practis yn cael ei chynnal yn briodol ac yn unol â phob un o'r gofynion rheoliadol. Nid oedd y practis yn dosbarthu meddyginiaethau. Dim ond meddyginiaeth i'w defnyddio pe bai argyfwng meddygol oedd yn cael ei chadw ar y safle. Gwelsom fod proses gadarn ar waith er mwyn sicrhau bod y meddyginiaethau hyn yn cael eu rheoli'n briodol a'u cadw'n ddiogel. Gwelsom fod pad presgripsiwn y practis yn cael ei storio'n ddiogel.

Nodwyd gennym fod y pecyn cymorth cyntaf a'r cyfarpar dadebru brys yn gyfredol a gwnaethom edrych ar gofnodion a oedd yn dangos eu bod wedi cael eu harchwilio'n rheolaidd. Gwelsom fod y weithdrefn ar gyfer rheoli argyfwng yn gadarn, yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac yn gyson â chanllawiau'r Cyngor Dadebru.

Wrth edrych ar gofnodion y staff, gwelsom fod dau swyddog cymorth cyntaf yn y practis a bod 10 o'r 16 o'r aelodau o'r staff wedi ymgymryd â hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR) o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Gwelsom dystiolaeth fod y cwrs hyfforddiant a oedd wedi'i drefnu ar gyfer mis Gorffennaf 2023 wedi cael ei ganslo ar fyr rybudd gan y darparwr, ond y bwriedir cynnal y cwrs ym mis Medi 2023. Gwnaethom edrych ar yr asesiadau risg cadarn a oedd wedi cael eu rhoi ar waith ar gyfer pob un o'r chwe aelod o staff. Cawsom sicrwydd gan y camau gweithredu a oedd yn cael eu cymryd i liniaru'r risgiau gan na chynhaliwyd yr hyfforddiant gloywi.

### **Diogelu Plant ac Oedolion**

Nodwyd gennym fod polisi cynhwysfawr ar waith o dan berchnogaeth gorfforaethol MyDentist a oedd wedi cael ei deilwra i ddiwallu anghenion y practis hwn. Gwelsom fod manylion cyswllt cyfredol a gwybodaeth gyfeirio addas ar gael i'r staff a oedd yn cael eu cadw gyda'r gweithdrefnau ac y gellid dod o hyd iddynt yn rhwydd ar y wal yn swyddfa'r practis. Roedd y dogfennau hyn yn cyfeirio at y ddau arweinydd a enwyd ar gyfer diogelu yn y practis.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi llofnodi'r polisi a adolygwyd yn ddiweddar a chytuno arno ac yn ystod ein trafodaethau â'r staff, gwnaethom gadarnhau eu bod yn gwybod beth i'w wneud pe byddai digwyddiad diogelu yn codi. Gwelsom fod y

polisi'n cyfeirio at weithdrefnau diogelu Cymru a bod cymorth corfforaethol ar gael gan dîm cymorth cleifion dynodedig yn MyDentist.

Gwelsom ym mhob un o'r cofnodion staff a welsom eu bod wedi cwblhau hyfforddiant hyd at lefel 2 ar ddiogelu oedolion a phlant. Nodwyd hefyd enghreifftiau lle'r oedd y staff wedi mynd y tu hwnt i'r gofynion gorfodol o ran hyfforddiant, gan ymgymryd ag achrediad lefel 3.

### **Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol**

Gwelsom fod y cyfarpar clinigol yn lân ac mewn cyflwr da a bod system addas ar waith i sicrhau ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw. Nodwyd gennym fod system foddhaol a oedd yn cael ei rheoli'n gorfforaethol ar waith i ddelio ag achosion o gyfarpar yn methu ac roedd y cofnodion cynnal a chadw a welsom yn gynhwysfawr.

O edrych ar ffeiliau'r staff, gwelsom fod eu hyfforddiant ar y defnydd o gyfarpar clinigol yn gyfredol a chadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gyfforddus yn defnyddio'r cyfarpar ar ôl cael yr hyfforddiant.

Gwelsom fod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei reoli'n ddiogel ac yn briodol er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael gofal diogel. Nodwyd gennym fod polisi a gweithdrefn addas, ochr yn ochr â set fanwl o reolau lleol ac asesiad risg ymbelydredd wedi'u cynnwys yn y ffolder diogelu rhag ymbelydredd.

O'r cofnodion a welsom a oedd wedi'u cwblhau, nodwyd fod pelydrau-X yn cael eu defnyddio fel sylfaen dystiolaeth briodol i ddarparu gofal. Gwelsom mai ar ôl cyfiawnhau cynnal y broses pelydrau-X a chwblhau asesiad risg gynhwysfawr yn unig y cânt eu defnyddio. Nodwyd gennym fod gweithgareddau gwella ansawdd yn cael eu cynnal yn unol â phroses gorfforaethol MyDentist a oedd yn bodloni'r safonau gofynnol. Gwnaethom nodi fod system hŷn o broses graddio pelydrau-X yn dal i gael ei defnyddio ar rai o'r cofnodion, e.e. y raddfa 1, 2, 3.

**Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff pob un o'r graddau ansawdd delweddau radiograffau deintyddol eu cofnodi yn unol â'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf.**

## **Effeithiol**

### **Gofal Effeithiol**

Clywsom gan y staff eu bod yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag asesu cleifion, rhoi diagnosis iddynt a'u trin yn ddiogel. Gwelsom fod y driniaeth hon wedi cael ei darparu yn unol â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol lleol neu'n unol â'r canllawiau sydd ar gael yn gorfforaethol drwy MyDentist.

Nodwyd fod proses gadarn ar waith i gofnodi ac uwchgyfeirio digwyddiadau diogelwch cleifion. Er nad oedd unrhyw ddigwyddiadau diogelwch cleifion i ni eu hadolygu, cawsom sicrwydd drwy'r prosesau a oedd ar waith.

Gwelsom restrau clinigol fel y Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol yn cael eu defnyddio.

O edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom nad oedd farnais fflworid yn cael ei ddefnyddio yn ystod triniaethau deintyddol pan fo angen yn unol â'r pecyn 'Delivering Better Oral Health'.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff farnais fflworid ei ddefnyddio'n rheolaidd pan fo angen.**

### **Cofnodion y Cleifion**

Gwnaethom edrych ar gofnodion 18 claf, a gwelsom fod y cofnodion digidol a'r rhai ar bapur yn cael eu storio'n unol â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Nodwyd fod darlun llawn a chyflawn o'r gofal a ddarperir, cyfiawnhad a manylion triniaethau yn ogystal â symptomau a thrafodaethau a gynhaliwyd ar hanes meddygol mewn 10 cofnod a welsom. Roedd yr adborth gan gleifion yn cadarnhau bod y trafodaethau hyn wedi cael eu cynnal a bod pob un o'r cleifion o'r farn bod y staff wedi esbonio'r driniaeth iddynt mewn ffordd y gallent ei deall.

Gwnaethom nodi agweddau ar y broses cadw cofnodion a oedd angen eu cryfhau, gan gynnwys;

- Nodwyd fod sawl cofnod yn nodiadau'r cleifion ar goll mewn wyth o'r cofnodion a welsom. Roedd y bylchau hyn yn amrywio o fanylion y triniaethau a ddarparwyd i'r broses o gofnodi a diweddarau archwiliadau periodontol sylfaenol (BPE).
- Roedd pob un o'r cofnodion a welsom yn defnyddio templed nad oedd yn briodol ar gyfer anghenion pob un o'r cleifion, er enghraifft, rhoi cyngor ar roi'r gorau i smygu i blant.
- Gwnaethom hefyd nodi nad oedd y cofnodion yn cynnwys dewis iaith y cleifion, cofnod o'u penderfyniad nac unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i'r dewis hwn.

Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael anawsterau technegol am gyfnod o amser wrth i'r wyth claf yr oedd eu manylion ar goll o'u cofnodion gael eu trin.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cywir a dealladwy sydd wedi'u teilwra eu cadw am gleifion bob amser.**



Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu cleifion eu cofnodi.

## Effeithlon

### Effeithlon

Gwnaethom nodi fod cymysgedd o sgiliau addas mewn lleoliad priodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir a oedd yn galluogi cynnydd effeithlon ar hyd y llwybr gofal.

Gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau eraill yn effeithiol a bod yr atgyfeiriadau hyn yn cael eu monitro gan staff y practis.

Gwelsom fod cleifion preifat yn cael mynediad amserol i'r gofal yr oedd ei angen arnynt, gan fod prosesau apwyntiadau brys a brysbennu addas ar waith ar gyfer cleifion preifat. Gwelsom nad oedd cleifion y GIG yn gallu gweld clinigwyr mewn modd amserol nac mewn argyfwng.

Fel y cyfeirir ato mewn rhan arall o'r adroddiad hwn, dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi ei chael hi'n 'hawdd iawn' (3/12) neu'n 'eithaf hawdd' (8/12) trefnu apwyntiad. Fodd bynnag, roedd dau glaf o'r farn nad oedd yn hawdd trefnu apwyntiad o gwbl. Dywedodd un o'r cleifion hefyd ei fod o'r farn bod yr amseroedd aros wedi gwaethygu ers mis Ebrill 2022.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Gwelsom fod trefniadau arwain boddhaol ar waith yn y practis a gaiff eu cwblhau gan reolwr y practis gyda chymorth gan y grŵp MyDentist. Gwelsom fod y staff yn gweithio'n dda fel rhan o dîm a chlywsom adborth da ar y broses gyffredinol o reoli'r practis.

Esboniodd rheolwr y practis ei fod yn defnyddio adnodd cofnodi gwyliau blynyddol er mwyn sicrhau bod nifer digonol o staff ar ddyletswydd sy'n meddu ar y gymysgedd gywir o sgiliau. Nodwyd fod pob aelod o'r staff wrthi'n cael ei arfarnu. Roedd y cofnodion yn nodi bod yr arfarniadau hyn yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn defnyddio'r adnoddau a ddarperir yn gorfforaethol gan MyDentist i hyrwyddo datblygiad y tîm. Gwelsom gofnodion manwl o gyfarfodydd staff a oedd yn cael eu cynnal bob mis, lle'r oedd y staff yn trafod diweddariadau i bolisiau, iechyd a diogelwch ac adborth gan gleifion.

Roedd pob un o'r polisiau a welsom yn fanwl ac wedi cael ei gyfeirio'n briodol at y staff ac er na welsom unrhyw restrau polisiau na gweithdrefnau yn y practis, cadarnhaodd y staff eu bod yn gwybod lle y gellir dod o hyd iddynt yn rhwydd.

## Y Gweithlu

### Gweithlu Medrus a Galluog

Gwnaethom edrych ar wyth o ffeiliau'r staff a gwelsom eu bod yn bodloni'r gofynion gorfodol. Gwelsom fod polisi a gweithdrefn cynhwysfawr ar waith er mwyn sicrhau bod pob un o'r gwiriadau recriwtio perthnasol yn cael eu cynnal mewn modd amserol. Gwelsom dystiolaeth fod y staff yn aelodau o'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod yswiriant indemniad ar waith yn y practis. Roedd prosesau priodol ar waith ar gyfer rheoli'r trefniadau adnewyddu aelodaeth ac yswiriant.

Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn cael eu cadw i safon dda a gwelsom dystiolaeth fod pob un o'r ffeiliau a welsom yn cydymffurfio â gofynion yr hyfforddiant gorfodol. Nodwyd fod prosesau goruchwyllo corfforaethol boddhaol ar waith yn ogystal â threfniadau rheoli lleol o bob un o'r cyrsiau hyfforddiant a'r gwiriadau cyflogaeth yn y practis, a oedd yn ei alluogi i recriwtio a chadw'r staff. Nododd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur staff AGIC eu bod yn teimlo eu bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i gyflawni eu rolau.

## Diwylliant

### Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Gwelsom fod proses briodol ar waith i'r cleifion roi adborth ac i'r practis ymateb iddo. Roedd blwch yn y dderbynfa er mwyn i'r cleifion roi eu hadborth ynddo yn ogystal â ffurflenni y gallai'r cleifion fynd â chopïau adref gyda nhw. Dywedodd y staff wrthym fod rheolwr y practis yn goruchwyllo'r broses adborth ac yn cynnal adolygiadau wythnosol o'r adborth a oedd yn cael eu cyflwyno yn ystod cyfarfodydd y practis. Gwelsom fod proses gorfforaethol ar waith gan MyDentist ar gyfer monitro adborth a chwynion yn ddigidol hefyd.

Gwelsom fod y cwynion yn cael eu goruchwyllo gan reolwr y practis a bod proses addas ar waith i gyflwyno ac ymateb i gwynion, gan gynnwys y rhai a roddir ar lafar. Nodwyd gennym fod posteri wedi'u gosod ar wal y dderbynfa a oedd yn rhoi gwybod i'r cleifion sut i wneud cwyn ac yn cynnwys enw cyswllt. Gwelsom fod polisi boddhaol ar waith a oedd yn amlinellu'r broses ymateb i gwynion o fewn 10 diwrnod ac y cyfeirir ato'n briodol. Roedd y polisi hwn yn cydymffurfio'n llawn â phroses gwyno Gweithio i Wella y GIG.

Gwnaethom edrych ar sampl o gwynion a gwelsom thema gyffredin, sef achosion o oedi i amseroedd aros y GIG. Dywedwyd wrthym nad oedd deintydd y GIG wedi bod ar gael yn y practis ers mis Awst 2023, ond bod ymdrechion yn cael eu gwneud i fynd i'r afael â hyn. Yn y cyfamser, caiff y cleifion eu cyfeirio at y gwasanaeth 111 i gael triniaeth.

Ymatebodd tri o'r 16 o aelodau o'r staff yn y practis i holiadur staff AGIC, a nododd un ohonynt ei fod yn anghytuno'n gryf nad oedd ei swydd yn niweidiol i'w iechyd. Roedd aelod arall o'r staff yn anghytuno bod y practis yn cymryd camau cadarnhaol ar iechyd a llesiant. Nododd ymatebydd arall ei fod yn anghytuno bod ei batrwm gwaith yn rhoi cydbwysedd da iddo rhwng gwaith a bywyd. Gan mai sampl cyfyngedig o farn y staff a gasglwyd, rydym o'r farn ei fod yn bwysig i'r practis ymchwilio i'r materion hyn ymhellach.

**Dylai'r rheolwr cofrestredig gynnal arolwg llesiant ymysg pob aelod o'r staff yn ogystal â chynnal ymarfer datblygu staff achrededig.**

Gwelsom fod y weithdrefn rhoi gwybod am ddigwyddiadau'n cyfeirio'n briodol at y Ddyletswydd Gonestrwydd a bod polisi chwythu'r chwiban addas ar waith. Roedd gan y staff fynediad at hyfforddiant ar-lein ar gyfer y Ddyletswydd Gonestrwydd yn gorfforaethol drwy MyDentist, ac roedd y practis wedi llunio astudiaeth achos ar y Ddyletswydd Gonestrwydd er mwyn i'r staff ei darllen i wella eu dealltwriaeth.

Dyweddod y staff y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn teimlo'n hyderus i godi pryderon mewn perthynas â diogelwch cleifion neu achos o chwythu'r chwiban, eu bod yn ymwybodol o'r prosesau i'w dilyn ac y byddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi wrth godi unrhyw bryderon. Ond, roedd dau o'r tri ymatebydd a gwblhaodd holiadur staff AGIC yn anghytuno bod eu sefydliad yn eu hannog i godi pryderon pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le ac i rannu hyn â'r claf. Gan mai sampl bach o farn y staff a gasglwyd oherwydd nifer yr ymatebwyr, rydym yn argymhell y dylid cynnal arolwg dienw ymysg y staff i ddeall y rhesymau pam nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i godi pryderon ac i weithredu ar y canfyddiadau. Dylid cynnal adolygiad o broses codi pryderon y practis hefyd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd i AGIC ei fod yn annog y staff i godi pryderon a'i fod yn gweithredu ar unrhyw bryderon yn briodol.

## **Dysgu, Gwella ac Ymchwil**

### **Gweithgareddau Gwella Ansawdd**

Dyweddod y staff wrthym eu bod yn cael eu cefnogi gan MyDentist yn gorfforaethol i ymgymryd â gweithgareddau gwella ansawdd, a oedd yn cynnwys adolygiadau cymheiriaid, archwiliadau arferion a gwiriadau sicrhau ansawdd. Roedd dogfennaeth polisi a gweithdrefn briodol yn ategu hyn.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau wedi'u cynnal ar bresgripsiynau gwrthfotigau a phelydrau-X ym mis Awst 2023. Cynhaliwyd archwiliadau cardiau cofnodion ym mis Mai 2023, a oedd yn cynnwys archwiliad ar roi'r gorau i smygu. Gwelsom fod newidiadau wedi'u gwneud i weithdrefnau'r practis gan ddilyn adolygiadau lleol a chenedlaethol ar y gwasanaeth yn ogystal â newidiadau o ganlyniad i archwiliad clinigol.

## **Dull Systemau Cyfan**

### **Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu**

Esboniodd y staff fod eu cydberthnasau gwaith â gwasanaethau gofal sylfaenol eraill yn dda, a dywedwyd eu bod yn gweithredu system atgyfeirio ddigidol effeithlon ar y cyd â gwasanaethau lleol eraill. Gwelsom fod y broses hon yn addas i reoli'r trefniadau ar gyfer atgyfeirio cleifion sydd â'r anghenion mwyaf brys a nodwyd bod proses gadarn ar waith i reoli unrhyw gamau gweithredu dilynol.

Gwelsom gydberthnasau gwaith da rhwng y staff yn fewnol, gan gynnwys staff corfforaethol MyDentist, ac roedd yr hyn a ddywedodd y staff wrthym yn cadarnhau hyn.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nodwyd bod dau ddiffoddwr tân carbon deuocsid wedi cael eu condemnio gan gontractiwr ac nad oedd y broses o'u gwasanaethu yn gyfredol.	Ni fyddai modd mynd i'r afael â tân yn briodol a byddai hyn yn effeithio ar ddiogelwch cleifion.	Tynnwyd sylw'r staff at y mater hwn.	Archebwyd dau ddiffoddwr newydd a gyrhaeddodd ar yr un diwrnod.

## Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: MyDentist, Stryd y Cei, Hwlfordd

Dyddiad yr arolygiad: 30 Awst 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd unrhyw faterion y mae angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch.					

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** MyDentist, Stryd y Cei, Hwlfordd

**Dyddiad yr arolygiad:** 30 Awst 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mewn ymateb i holiadur staff AGIC, nododd dau aelod o'r staff nad oeddent yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol sydd ar gael iddynt.	Dylai'r rheolwr cofrestredig hyrwyddo gwasanaethau iechyd galwedigaethol yn rheolaidd i'w staff.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 13 (5)	Bydd hyn yn cael ei drafod â phob aelod o'r staff yng nghyfarfod nesaf y practis	Rheolwr y Practis	30/11/2023
Gwnaethom nodi fod system hŷn o broses graddio pelydrau-X yn dal i gael ei defnyddio ar rai o'r cofnodion, e.e. y raddfa 1, 2, 3.	Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff pob un o'r graddau ansawdd delweddau radiograffau deintyddol eu cofnodi yn unol â'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf.	Adran 13 (2)	Trafodwyd hyn â phob aelod o'r staff clinigol ac mae'r deintyddion bellach yn defnyddio'r system graddio gywir	Rheolwr y practis / deintyddion	Wedi'i gwblhau



<p>O edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom nad oedd farnais fflworid yn cael ei ddefnyddio yn ystod triniaethau deintyddol pan fo angen yn unol â'r pecyn 'Delivering Better Oral Health'.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff farnais fflworid ei ddefnyddio'n rheolaidd pan fo angen.</p>	<p>Adran 13 (1)</p>	<p>Bydd y mater o ddarparu canllawiau iechyd y geg gwell yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y practis. Bydd canllawiau'r DBOH yn cael eu harbed ar gyfrifiaduron pob un o'r clinigwyr er mwyn iddynt ddod o hyd iddynt yn rhwydd</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>30/11/2023</p>
<p>Nodwyd fod sawl cofnod yn nodiadau'r cleifion ar goll mewn wyth o'r cofnodion a welsom. Roedd y bylchau hyn yn amrywio o fanylion y triniaethau a ddarparwyd i'r broses o gofnodi a diweddarau archwiliadau periodontol sylfaenol (BPE).</p> <p>Roedd pob un o'r cofnodion a welsom yn</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cywir a dealladwy sydd wedi'u teilwra eu cadw am gleifion bob amser.</p> <p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu cleifion eu cofnodi.</p>	<p>Adran 20 (1)</p>	<p>Mae'r cynghorydd datblygu clinigol wedi trefnu i ymweld â phob un o'r clinigwyr i drafod unrhyw welliannau y ellir eu gwneud i'r templedi cadw cofnodion</p> <p>Bydd y polisi cadw cofnodion hefyd yn cael ei adolygu yng nghyfarfod nesaf y practis</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>30/11/2023</p>

<p>defnyddio templed nad oedd yn briodol ar gyfer anghenion pob un o'r cleifion, er enghraifft, rhoi cyngor ar roi'r gorau i smygu i blant.</p> <p>Gwnaethom hefyd nodi nad oedd y cofnodion yn cynnwys dewis iaith y cleifion, cofnod o'u penderfyniad nac unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i'r dewis hwn.</p>			<p>Roedd y practis yn cofnodi dewis iaith y cleifion ar ddiwrnod yr arolygiad, ond dim ond yn ddiweddar rhoddyd y broses ar waith</p>	<p>Tîm y practis</p>	<p>Parhaus</p>
<p>Ymatebodd tri o'r 16 o aelodau o'r staff yn y practis i holiadur staff AGIC, a nododd un ohonynt ei fod yn anghytuno'n gryf nad oedd ei swydd yn niweidiol i'w iechyd. Roedd aelod arall o'r staff yn anghytuno bod y practis yn cymryd camau cadarnhaol ar iechyd a llesiant. Nododd</p>	<p>Dylai'r rheolwr cofrestredig gynnal arolwg llesiant ymysg pob aelod o'r staff yn ogystal â chynnal ymarfer datblygu staff achrededig.</p>	<p>Adran 16 (1)</p>	<p>Bwriedir cynnal sesiynau un i un gyda'r staff i drafod canfyddiadau'r arolwg staff</p> <p>Mae'r cwmni wrthi'n anfon arolwg i'r staff hefyd</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>30/11/2023</p>

<p>ymatebydd arall ei fod yn anghytuno bod ei batrwm gwaith yn rhoi cydbwysedd da iddo rhwng gwaith a bywyd. Gan mai sampl cyfyngedig o farn y staff a gasglwyd, rydym o'r farn ei fod yn bwysig i'r practis ymchwilio i'r materion hyn ymhellach.</p>					
<p>Roedd dau o'r tri ymatebydd a gwblhaodd holiadur staff AGIC yn anghytuno bod eu sefydliad yn eu hannog i godi pryderon pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le ac i rannu hyn â'r claf.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd i AGIC ei fod yn annog y staff i godi pryderon a'i fod yn gweithredu ar unrhyw bryderon yn briodol.</p>	<p>Adran 17 (3) (e)</p>	<p>Trafodwyd y polisi Chwythu'r Chwiban a'r polisi Dyletswydd Gonestrwydd mewn cyfarfod practis yn ddiweddar, ond bydd y ddau bolisi yn cael ei adolygu yn ystod cyfarfod nesaf y practis</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>30/11/2023</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):** Barbara Nowinska / Sarah-Jane Davies

**Swydd:**

**Rheolwr y Practis / Swyddog Rheoleiddio**

**Dyddiad:**

**26/10/2023**